**RHEOL SEFYDLOG 1 — Aelodau**

**Llw neu Gadarnhad Teyrngarwch**

1.1 Pan dyngir y llw teyrngarwch, neu pan roddir y cadarnhad cyfatebol, o dan Adran 23 o'r Ddeddf, rhaid iddo gael ei dyngu neu ei roi gerbron y Clerc, yn gyhoeddus neu yn breifat.

1.2 Pan fydd aelod o'r llywodraeth:

(i) yn tyngu'r llw swyddogol, neu yn rhoi'r cadarnhad cyfatebol;

(i) yn tyngu'r llw teyrngarwch, neu yn rhoi'r cadarnhad cyfatebol,

o dan Adran 55 o'r Ddeddf, rhaid iddo neu iddi hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig, o fewn un diwrnod gwaith, ei fod wedi gwneud hynny.

**Grwpiau Gwleidyddol**

1.3 At ddibenion y Ddeddf, grŵp gwleidyddol yw:

(i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a chanddo o leiaf dri Aelod yn y Cynulliad; neu

(ii) tri neu fwy o Aelodau sydd, a hwythau heb fod yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 1.3(i), wedi hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol.

1.4 Y Llywydd sy'n gorfod penderfynu ar unrhyw gwestiwn a yw unrhyw Aelod yn perthyn i grŵp gwleidyddol neu i ba grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn.

[ni ddefnyddir 1.5 ac 1.6]

## Taliadau

1.7 Rhaid i'r Comisiwn benderfynu o dro i dro ar swm y gostyngiad i gyflog Aelod Cynulliad sy'n ofynnol yn ôl adran 21 o'r Ddeddf.

1.8 Rhaid i'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad a chyhoeddi unrhyw benderfyniad a wneir o dan Reol Sefydlog 1.7 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

[ni ddefnyddir 1.9]

1.10 Ar gynnig a wneir gan y Comisiwn, rhaid i'r Cynulliad ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau'r Cynllun.

## Ymddiswyddiadau a Swyddi Gwag

1.11 Caiff Aelod ymddiswyddo o'i sedd yn y Cynulliad drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd.

1.12 At ddibenion adran 10 o'r Ddeddf, mae swydd yn wag pan fydd y Llywydd yn cael hysbysiad o ymddiswyddiad yn unol â Rheol Sefydlog 1.11, neu fel arall pan fydd y Llywydd yn datgan bod y sedd wedi dod yn wag.

## Rolau a Chyfrifoldebau Gwahanol Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol

1.13 Rhaid i'r Cynulliad wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf, ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol. Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol:

(i) mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr ardaloedd y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau yn gydwybodol;

(ii) wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a/neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;

(iii) mae gan bob Aelod statws cyfartal;

(iv) ni ddylai Aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha ardal y maent yn ei gwasanaethu; a

(v) ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth neu ei ranbarth (yn ôl fel y digwydd), heblaw drwy gytuno ymlaen llaw.

**Comment [SJ1]:** Pwynt gramadegol. Rwy'n cynnig y byddai 'oni bai y cytunwyd ar hynny ymlaen llaw' yn well.

**Atodiad B**